

**PWYLLGOR CYDWEITHREDOL RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO  
MORGANNWG**  
**3<sup>ydd</sup> Ebrill 2013**

**Yn bresennol:**

Pam Toms – CBM  
Francis Beecher – Cymorth  
Mike Friel – CSC  
Michelle Brewer – CSC  
Mark Sheridan – CIC  
Y Cynghorydd Luke Holland – CS  
Bob Walden - CBM

Simon Protheroe - LIC  
Ceri Meloy - CIC  
Sue Lloyd Selby – Gwerth Cymru  
Craig Woolcock - CSC  
Sian Harrop-Griffiths - BILIPCF  
Andrew Page – CBM (cofnodion)

**Ymddiheuriadau:**

Y Cynghorydd Lynda Thorne – CSC  
Y Cynghorydd Bronwen Brooks – CBM  
Mike Ingram – CBM

Peter Greenhill - Gwasanaeth Prawf  
Helen Jones - CIC  
Dr Sian Griffiths – Iechyd y Cyhoedd

	<b>Cam Gweithredu</b>
<b>Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</b> Croesawodd Francis Beecher (Is-gadeirydd) bawb i'r cyfarfod. Nodwyd ymddiheuriadau.	
<b>Cofnodion y cyfarfod diwethaf</b> Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a chytunwyd arnynt ond gan gynnwys y canlynol:  <b>Tudalen 2 - paragraff olaf ar waith Cyngor Caerdydd ar lwybrau.</b> Gofynnodd Simon Protheroe (SP) am eglurhad o sut y byddai'r gwaith hwn yn ffurfio rhan o adolygiadau strategol Cyngor Caerdydd. Cadarnhaodd Mike Friel (MF) yr eglurir hyn yn nes ymlaen yn y cyfarfod fel rhan o'r amserlen ddangosol a luniwyd gan Gyngor Caerdydd i'w thrafod.	

<p>Dylid bod wedi cynnwys Pwynt Gweithredu yn dilyn cais gan Mark Sheridan (MS) i Gaerdydd roi gwybod am sut yr oedd am gasglu'r wybodaeth i benderfynu ar y toriadau y byddai angen eu gwneud i'r gyllideb yn y dyfodol.</p> <p>Gofynnodd Frances Beecher (FB) i'r eitemau canlynol gael eu cynnwys ar agenda un o gyfarfodydd y PCRh yn y dyfodol:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Tai yn Gyntaf</li> <li>2. Arloesi</li> </ol> <p><b>Ffurflen Adborth Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl</b> Cododd SP bryderon fod gan y PCRh gryn ffordd i fynd, nad oedd eto wedi dechrau mabwysiadu dull strategol ac y dylid adlewyrchu hyn mewn ffurflenni adborth.</p> <p>Cafwyd trafodaethau ar y ffaith fod y PCRh ar hyn o bryd yn gweithredu fel pwyllgor, ond nad oedd yn gydweithredol, a ph'un a oedd hyn yn rhannol oherwydd oedi o dri mis wrth sefydlu PCRh Caerdydd a'r Fro o gymharu â rhanbarthau eraill Cymru, a olygai nad oedd eto wedi dal i fyny â nhw.</p> <p>Cytunwyd er mwyn sicrhau bod y ffurflen adborth yn adlewyrchu'r holl faterion a phryderon pawb y byddai'r rhai yn y cyfarfodydd yn sôn am unrhyw eitemau y dylid eu cynnwys yn y cyfarfod ac y câi'r ffurflen ei dosbarthu i Aelodau'r PCRh i gynnig sylwadau arni cyn ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru.</p>	<p>PT</p>
<p><b>Materion yn Codi</b> Rhoddodd Pam Toms (PT) ddiweddariad ar swydd y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol. Roedd yn siom na chafwyd ond saith cais mewn ymateb i'r ail hysbyseb. Llunnir y rhestr fer ar 9 Ebrill a chynhelir cyfweiliadau ar 30 Ebrill.</p> <p>Rhoddodd FB wybod i bawb y dylent yn y dyfodol wneud yn glir eu ceisiadau am gamau gweithredu yn ystod trafodaethau fel bod modd eu nodi yng Nghofnodion cyfarfodydd i sicrhau y cânt eu gweithredu.</p>	<p>Pawb</p> <p>Pawb</p>
<p><b>Ffurflenni Gwrthdaro Buddiannau</b> Dim</p>	
<p><b>Achredu.</b> Dim, yn aros am ganllawiau terfynol.</p> <p>Cadarnhaodd SP fod grŵp llywio wedi'i sefydlu i ailystyried hyn yn dilyn yr adborth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad anffurfiol, oherwydd</p>	

cydnabu o'r ymatebion nad oedd croeso i'r cynigion yn unrhyw ran o'r sector.

**Sefyllfa Ariannol yn erbyn y Gyllideb.**

Dim newid.

**Nodi Anghenion Rhanbarthol.**

Cadarnhaodd Michelle Brewer (MB) fod cyfarfod wedi'i gynnal rhwng y ddau Gyngor i ystyried y prosesau lleol sydd ar waith i nodi anghenion, cysondeb y data mewn perthynas â nodi rhanbarthol ac amserlen i'w chyflwyno i'r PCRh.

Dosbarthodd MB amserlen ddangosol i'r rhai a oedd yn bresennol er mwyn i Gyngor Caerdydd allu casglu gwybodaeth (atodedig) o ystyried y toriadau sylweddol yr oeddent yn disgwyl eu gwneud i'r gyllideb. Cytunwyd y byddai MB yn anfon hyn ymlaen at yr holl ddarparwyr cymorth yng Nghaerdydd ac y byddai FB hefyd yn trafod y broses yng nghyfarfod nesaf Cymorth.

Cadarnhaodd Mike Friel (MF) y câi llawer o ddata gwahanol ei gasglu e.e. gwybodaeth o'r Porth, rhesymau craidd dros atgyfeiriadau, patrymau gwasanaethau a llwybrau. Er ei bod yn broses gymhleth, y canlyniad yr oedd angen ei gyflawni drwy gasglu'r wybodaeth hon oedd sicrhau bod gwasanaethau'n dal i berfformio'n dda ac yn gwella.

Tynnodd SP sylw at y nifer uchel o welyau mynediad uniongyrchol yng Nghaerdydd, a chadarnhaodd MF fod hyn bellach wedi'i ffurfioli drwy'r Porth.

Gofynnodd Mark Sheridan (MS) sut y câi gwasanaethau cymorth yn ôl yr angen eu hasesu gan eu bod yn cwmpasu amrywiaeth o grwpiau cleientiaid. Dywedodd MF fod Caerdydd ar hyn o bryd yn gwario llawer o'i gyllideb Cefnogi Pobl ar gymorth yn ôl yr angen a'i bod yn hanfodol i sicrhau y gallai'r math hwn o wasanaeth ymateb i anghenion llwybrau. Cadarnhaodd ymrwymiad Cyngor Caerdydd i ddatblygu'r broses adolygu drwy ymgynghori â'r holl randdeiliaid ac y deuai rhagor o fanylion i law dros gyfnod yr Adolygiad.

Amlinellodd PT yr amserlen i gasglu gwybodaeth am anghenion lleol ar gyfer Bro Morgannwg a nodi anghenion rhanbarthol:

- Mai/Mehefin 2013 - cyfarfodydd grwpiau cynllunio lleol er mwyn i'r holl grwpiau cleientiaid allu casglu data anghenion ychwanegol gan yr holl randdeiliaid yn ogystal â dal i gwblhau'r ffurflenni Asesu Anghenion Unigol

MB/FB

- 16 Awst 2013 - dyddiad cau i gyflwyno data anghenion i'r Tîm Cefnogi Pobl
- 19 Medi - Aelodau craidd y Grŵp Cynllunio Lleol Cefnogi Pobl (GCLICP) yn cwrdd i adolygu'r holl ddata a gafwyd a chynlluniau presennol ac i flaenoriaethu gwasanaethau newydd
- Erbyn 31 Hydref 2013 - aelodau craidd y GCLICP i gwblhau a chytuno ar Gynllun Comisiynu Lleol (CCLI) 3 blynedd
- Tachwedd 2013 - CCLI i'w gyflwyno i Gabinet Bro Morgannwg i'w fabwysiadu
- Rhagfyr/Ionawr - CCLI a'r Cynllun Comisiynu Rhanbarthol (CCRh) i'w cyflwyno i'r PCRh
- 31 Ionawr 2013 - CCLI a'r CCRh i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru

Cadarnhawyd y bydd data'r ddau awdurdod lleol yn addas i'w gynnwys yn y Cynllun Comisiynu Rhanbarthol erbyn Ionawr 2014 ac y câi prosesau comisiynu Caerdydd eu halinio â rhai'r Fro lle y bo'n bosibl. Os nodir angen am gynllun rhanbarthol yn ystod y gwaith o nodi anghenion rhanbarthol, câi gwaith ar y cyd ei gyflawni i ddatblygu hyn.

**Canlyniadau a Rheoli Perfformiad (gan gynnwys adolygu gwasanaethau).**

Dim

**Cynigion ar Ail-fodelu Strategol.**

Dim.

**Comisiynu a Chaffael**

**Ail-dendro Contractau Anableddau Dysgu (Caerdydd)**

Cadarnhaodd y Cynghorydd Luke Holland fod y Grŵp Gorchwyl/Grŵp Rhanddeiliaid a sefydlwyd i ystyried dulliau caffael newydd wedi cwrdd eisoes ac y câi'r wybodaeth a gasglwyd ei rhoi i'r Grŵp Arbenigol. Câi'r holl gynigion eu cynnwys mewn Adroddiad Cabinet i'w gyflwyno ym mis Mehefin/Gorffennaf 2013. Câi'r wybodaeth yn yr adroddiad ei rhannu â'r holl randdeiliaid, gan gynnwys y PCRh, ar ôl y Cabinet.

Rhoddodd FB wybod fod pryderon mawr ymysg darparwyr cymorth ynghylch newidiadau posibl ac y byddai'n fuddiol petai pawb yn cael y wybodaeth ddiweddaraf er mwyn ceisio lleddfu eu pryderon.

LH

Cadarnhaodd LH fod y Tasglu o 26 o bobl yn cynnwys darparwr cymorth a'r Undebau Llafur a bod pawb wedi'u cynnwys yn y broses. Cafwyd cyfraniad eang gan y grŵp, a byddent hefyd yn gwahodd tystiolaeth arbenigol o ffynonellau eraill i'w chynnwys yn y broses. Cytunodd i anfon ymlaen fanylion am aelodau'r Tasglu a'r Grŵp Arbenigol i'r PCRh.

**Cyflwyniad gan Sue Lloyd-Selby (SLS) o Gwerth Cymru ar y Cynllun Llwybr Caffael.**

- Mae'r cynllun llwybr dan adolygiad ar hyn o bryd ond unwaith y caiff ei ddiweddarau fe'i symudir i wefan Llywodraeth Cymru (LIC).
- Cynllun llwybr caffael ar-lein ydyw. Mae'n ganllaw cam wrth gam ar gomisiynu/caffael yn unol â deddfwriaeth gyfredol sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol a gwasanaethau a ariennir gan Cefnogi Pobl.
- Mae'r broses yn cynnig dull o ymdrin â threfniadau comisiynu a chaffael sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a dinasyddion.
- Mae'n sicrhau bod dull seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gan gynnwys p'un a oes angen ail-dendro gwasanaeth.
- Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau fframwaith comisiynu a ategwyd gan y cynllun llwybr caffael. Noda Safon 7 fod yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod eu harchebion sefydlog drwy gontract yn ddigon hyblyg i'w galluogi i wneud penderfyniadau ar sut i sicrhau gwasanaethau fesul achos.
- Mae'r cynllun llwybr yn egluro bod gwasanaethau gofal cymdeithasol (a gwasanaethau cefnogi pobl a gomisiynir ar y cyd) fel arfer yn dod dan Ran B yn y rheoliadau caffael. Mae hyn yn golygu nad oes gofyniad cyfreithiol i gynnal proses ail-dendro gystadleuol am wasanaethau, waeth beth fo gwerth y contract. Efallai y bydd angen i awdurdodau sydd â chyfyngiadau yn eu canllawiau gweithdrefn contractau ddiwygio eu gweithdrefnau contract i alluogi penderfyniadau i gael eu gwneud achos wrth achos.
- Dywedodd MS nad yw Darparwyr yn awyddus i ail-dendro gan ei fod yn tanseilio sefydlogrwydd defnyddwyr gwasanaeth.
- Dywedodd SLS fod awdurdodau lleol mewn sefyllfa anodd gan eu bod yn aml iawn yn cael eu herio gan ddarparwyr cyfredol os ydynt yn ail-dendro gwasanaethau, ond hefyd yn cael eu herio gan ddarparwyr newydd os na fyddant yn

ail-dendro.

- Mae bwrdd comisiynu cenedlaethol newydd yn cael ei sefydlu i ddatblygu proses weithredu i greu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy i Gymru, a bydd canllawiau drafft ar gael yn fuan.
- Mae adnodd gwneud penderfyniadau yn cael ei ddatblygu i gynnig canllaw i helpu comisiynwyr a'r swyddogion caffael sy'n rhan o'r broses gaffael weithio drwy'r broses a dod o hyd i'r ffordd orau o ddiogelu gwasanaethau.
- Os caiff gwasanaeth ei ddatgomisiynu, mae'n bwysig bod tystiolaeth i gyfiawnhau'r penderfyniad. Nod y cynllun llwybr yw galluogi comisiynwyr i nodi'r broses dendro briodol i'w defnyddio. Mae gan y wefan wybodaeth am fentrau cymdeithasol a modelau cymorth newydd. Fodd bynnag, er bod themâu allweddol o'r cynllun llwybr yn sefydledig yn y canllawiau Cefnogi Pobl newydd, nid oes adran Cefnogi Pobl ynddo. Bydd SLS ac SP yn cyfarfod i drafod sut y gall yr adnodd hwn fod yn fwy defnyddiol i'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol.

Cydnabu FB fod her enfawr yn wynebu'r PCRh i geisio dwyn trefniadau caffael a chomisiynu ynghyd, o ystyried bod gan y ddau awdurdod lleol archebion sefydlog a rheoliadau ariannol gwahanol.

Dyweddodd MS fod gan Cefnogi Pobl fantais dros ofal cymdeithasol gan fod y PCRh ar waith, a'i bod yn bwysig edrych ar sut y gall proses gomisiynu symud mewn ffordd sy'n galluogi arloesedd.

Dyweddodd SP fod pobl mewn rhannau o Gymru yn llwyddo i fod yn arloesol iawn a'u bod yn cydweithio â chomisiynwyr i ddod o hyd i ffordd o ddatblygu trefniadau caffael.

Rhoddodd SLS wybod fod mwy o bwyslais ar hwyluso'r farchnad yn y sector gofal cymdeithasol, yn hytrach na rheoli'r farchnad, ac er nad yw'r cynllun llwybr yn eithriadol o ddefnyddiol i wasanaethau a ariennir gan Gefnogi Pobl, mae'n bwysig bod PCRh yn ymwybodol ohono.

Mewn ymateb i sylwadau CM fod pethau'n ymddangos fel petaent wedi newid a bod llawer mwy o waith ail-dendro i'w wneud, rhoddodd SLS wybod bod hyn gan fod ymwybyddiaeth well o'r opsiynau i sicrhau gwasanaethau erbyn hyn.

Amlygodd SLS y papur ar wefan y cynllun llwybr sy'n rhoi canllawiau ar sut y gallwch greu, cefnogi a galluogi fforymau partneriaeth da mewn cyrff comisiynu.

<p><b>Trafod y PCRh</b>  Cafwyd trafodaeth ar y cynnydd a wnaed gan y PCRh hyd yma. Cytunwyd bod angen i'r cyfarfodydd wella, bod angen dull mwy cydlynol o weithredu a bod yr aelodau'n teimlo'n rhwystredig o ran diffyg cynnydd.</p> <p>Dywedodd LH fod diffyg eglurdeb am yr hyn a ddisgwylid gan yr aelodau.  Cydnabuwyd bod llawer o wahaniaethau rhwng Caerdydd a'r Fro, nid leiaf gan fod demograffeg y ddau mor wahanol. Fodd bynnag, ni ddylai fod yn amhosibl llunio strategaeth glir ar ymgysylltiad pwyllgorau neu berthnasau â darparwyr.</p> <p>Dywedodd SP fod angen i'r PCRh ddechrau drwy orchymyn awdurdodau lleol i ddatblygu un peth ar y cyd.</p> <p>Gofynnodd FB i'r holl aelodau gyflwyno awgrymiadau ar gyfer y cyfarfod nesaf ar sut y gallai'r PCRh gydweithio'n well a chynnig syniadau am brojectau ar y cyd.</p> <p>Mewn ymateb i awgrym gan MF cytunwyd y dylid sefydlu gweithgor ar gyfer y rhanbarth i nodi arfer gorau a sefydlu proses ar gyfer yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth i sicrhau bod darparwyr cymorth yn y rhanbarth yn cyflwyno dull cyson o sicrhau'r incwm uchaf posibl, rheoli dyledion a chynnig cymorth o ran hyfforddiant a gwaith. Cyngor Caerdydd i drefnu'r cyfarfod cyntaf. Cytunwyd ar aelodau'r grŵp:  Mike Friel  Mike Ingram  Frances Beecher  Mark Sheridan.</p>	<p>Paw  Pawb</p> <p>MB/MF</p>
<p><b>Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth</b>  Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni gan Ddarparwyr Gwasanaethau oedd 11 Mawrth. Fodd bynnag ni ddychwelwyd pob un. Anfonwyd negeseuon atgoffa.</p> <p>Bydd Nina Langrishe o TPAS yn dod i gyfarfod mis Mai y PCRh i alluogi aelodau i roi sylwadau ar ei chynllun gweithredu arfaethedig a sut y gall TPAS helpu'r PCRh i ddatblygu Fframwaith Defnyddwyr Gwasanaeth i'r rhanbarth.</p>	
<p><b>Diwygio Lles</b></p>	

<p>Roedd cyflwyniadau wedi'u paratoi yn dangos y camau a gymerwyd o fewn y rhanbarth i helpu i liniaru effeithiau diwygio lles, ond oherwydd cyfyngiadau amser, cytunwyd y câi'r rhain eu hanfon dros e-bost i'r rhai a oedd yn bresennol er gwybodaeth.</p>	PT
<p><b>Ymgysylltu â'r Sector Rhent Preifat</b> Oherwydd cyfyngiadau amser gohiriwyd hyn i'w gyflwyno yng nghyfarfod mis Mai.</p>	
<p><b>Diweddariadau gan Lywodraeth Cymru.</b></p> <p>Y Gweinidog newydd dros Dai ac Adfywio yw Carl Sergeant sydd â chefnidir ym maes Llywodraeth Leol a rhywfaint o brofiad o CP o ran cam-drin domestig a throsedd.</p> <p>Lansiwyd y safonau lechyd a Digartrefedd yng nghynhadledd Cymorth. Cytunodd SP i ddsbarthu'r rhain ar gais Sian Harrop-Griffiths (SHG).</p> <p>Dechreuodd LIC y gwaith o gasglu'r data Canlyniadau o'r chwe mis cyntaf, a bydd yn datblygu hyn.</p> <p>Mae Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl wedi trafod y fformiwla ddsbarthu y bydd y Gweinidog newydd yn ei hystyried.</p> <p>Bydd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion PCRh yn cwrdd ym mis Mai, ac mae'r ymchwil Llywodraethu ar y model cynaliadwy i PCRhau wedi dechrau. Mae'r ymchwilwyr wrthi'n rhoi nifer o opsiynau ynghyd, a byddant yna'n cwrdd ag ystod o randdeiliaid i drafod yr opsiynau gwahanol.</p>	SP
<p><b>Unrhyw Fater Arall</b></p> <p>Gofynnodd FB pryd y câi'r PCRh gyflwyniad gan Gyngor Caerdydd ar Dai yn Gyntaf. Dywedodd MF cyn gynted ag y byddai'r adroddiad gwerthuso wedi'i gwblhau gan Brifysgol Salford, y câi ei ddwyn gerbron y PCRh.</p> <p>Yn dilyn trafodaethau cytunwyd y byddai Is-gadeirydd Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (Chris Maggs) yn cael gwahoddiad i holl gyfarfodydd y PCRh yn y dyfodol a gofynnwyd i PT roi gwybod i Lywodraeth Cymru na lwyddodd Jan Williams i ddod i'r cyfarfod hwn, ac i holi a oedd yn bwriadu dod yn y dyfodol.</p>	MF  PT



<p>Cytunwyd i ddiwygio dyddiad cyfarfod Mai ac y dylid symud cyfarfodydd dilynol i ddydd Mawrth cyntaf y mis, unwaith pob deufis. Dyddiadau i'w dosbarthu.</p> <p><b>Cyfarfod nesaf:</b> Dydd Mawrth, 28 Mai 2013 yn Ystafell F26, Bloc A, Depo'r Alps, Gwenfô.</p>	PT